Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2014-15

Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2014-15

Adroddiad a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 (4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 10 Mehefin 2015.

HC131

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd i'w defnyddio gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn Legal Aid Agency, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ

Print ISBN 9781474120579
Gwe ISBN 9781474120586

ID 01061522 06/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Rhyngweithio â'r Arglwydd Ganghellor | 2 |
| Materion gwaith achos | 3 |
| Y strwythur gwneud penderfyniadau | 4 |
| Trosolwg o'r achosion a gyllidir | 5 |
| Apeliadau | 6 |
| Atebolrwydd | 7 |
| Casgliad | 9 |

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2014-15.

Yr adroddiad hwn yw'r ail o'i fath yn dilyn gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (y Ddeddf).

Mae rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn un a grëwyd gan y Ddeddf ac mae'n ymwneud â'r penderfyniadau a wneir ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Mae'r Cyfarwyddwr yn llwyr gyfrifol am achosion unigol ac mae hyn yn sicrhau bod y penderfynu yn y maes hwn yn annibynnol ar Lywodraeth.

Yn yr adroddiad hwn ceir crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyfarwyddwr, y penderfyniadau a wnaed a'r prosesau a ddilynwyd i gynnal annibyniaeth y broses benderfynu ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol.

Rwyf wedi cyflawni'r rôl hon ers gweithredu'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2013 a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd bob blwyddyn ar y ffordd yr ydw i wedi cyflawni'r ddyletswydd hon.

Gan fod rôl y Cyfarwyddwr yn gymharol newydd o hyd, cafwyd ychydig o addasiadau i'r fframwaith rheoleiddio ar ei chyfer yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Gan edrych ymlaen, mae'n debygol y bydd y manwl gyweirio'n parhau.

Mae Cyllid Achos Eithriadol yn faes sy'n denu sylw o hyd, yn fwyaf diweddar yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ym mis Mawrth 2015 . Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y newidiadau a wnaed mewn cymorth cyfreithiol sifil o dan y Ddeddf ac wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr Asiantaeth). Roedd rhai o'r argymhellion hyn yn ymwneud â gwaith achos ac maent yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau â gwaith y ddwy flynedd cyntaf o dan y Ddeddf i sicrhau bod y penderfynu gan y Cyfarwyddwr yn dal i fod o ansawdd uchel, yn gyson, yn dryloyw ac yn annibynnol.



Matthew Coats
Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol
8 Mehefin 2015

1 http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmjust/311/31102.htm

# Cyflwyniad

1. Penodir y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (y Cyfarwyddwr) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 4 o'r Ddeddf. Rôl y Cyfarwyddwr yw gwneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

2. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir wedi'u sefydlu yn yr Asiantaeth i warchod yr annibyniaeth hon. Mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fwy manwl yn yr adroddiad hwn.

3. Yn ymarferol, mae nifer o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyfarwyddwr yn cael eu dirprwyo i'r Asiantaeth. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Roedd hyn yn dilyn diddymu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd wedi gwneud penderfyniadau cyn hynny ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

4. Mae'r Cyfarwyddwr yn cael cymorth gan Fwrdd yr Asiantaeth i sicrhau bod arferion cadarn ar waith i gynnal annibyniaeth y broses benderfynu ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol.

5. Mae rolau Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth yn rhai y gellir eu dal gan yr un person. Fodd bynnag, mae trefniadau gwahanol ynghylch atebolrwydd ac adrodd ar gyfer y ddwy rôl. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy rôl yn cael eu dal gan Matthew Coats.

6. Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut y mae'r Cyfarwyddwr wedi cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u hymddiried iddo'n benodol o dan y Ddeddf dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar wahân ac mae'r cyhoeddiad hwnnw'n ymdrin â chylch gwaith ehangach y sefydliad.

# Rhyngweithio â'r Arglwydd Ganghellor

7. O dan y Ddeddf, gall yr Arglwydd Ganghellor ddyroddi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch y ffordd o gyflawni ei swyddogaethau, ond rhaid iddo beidio â dyroddi canllawiau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir a dal sylw ar unrhyw ganllawiau a ddyroddir.

8. Nid yw'r Arglwydd Ganghellor wedi dyroddi unrhyw gyfarwyddiadau o dan y pwerau hyn yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Fodd bynnag, yn 2014-15 fe gyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ddwy ddogfen ganllaw newydd fel a ganlyn:

   - 'The Lord Chancellor's Guidance – determining eligibility (means)'. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r prif elfennau y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr eu hystyried wrth benderfynu ar gymhwyster ariannol yr unigolyn i gael cymorth cyfreithiol sifil.

   - 'Notice to the Director of Legal Aid Casework: Lord Chancellor's guidance on exceptional funding (non-inquests)'. Roedd y ddogfen hon yn ategu'r ddogfen bresennol 'Lord Chancellor's Guidance on Exceptional Funding (Non-Inquests)' drwy adlewyrchu cyfraith achosion berthnasol newydd y cyfeirir ati'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

2 Gellir dod o hyd i'r dogfennau hyn ar-lein yn: https://www.gov.uk/funding-and-costs-assessment-for-civil-and-crime-matters#lord-chancellors-guidance

# Materion gwaith achos

9. Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd wedi dyroddi diweddariadau i'w ganllawiau (o dan adran 4 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

   - Mehefin 2014 – er mwyn cymryd yr Un Llys Teulu i ystyriaeth.

   - Ionawr 2015 – er mwyn cynnwys paragraffau ychwanegol ar Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth.

10. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar gymorth cyfreithiol a chanllawiau a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor yn cael eu cymhwyso'n gyson, parhawyd i ddarparu hyfforddiant i holl weithwyr achos yr Asiantaeth, wedi'i addasu yn ôl rôl benodol pob un o'r timau gwaith achos..

11. Yn unol â Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth, mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi cwrdd yn ffurfiol â'r Arglwydd Ganghellor i drafod y ffordd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod 2014-15. Yn y cyfarfod hwn, a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015, rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariad i'r Arglwydd Ganghellor ar ei ail flwyddyn yn Gyfarwyddwr a thynnodd sylw at rai o'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ail flwyddyn y cynllun cymorth cyfreithiol newydd a'r gwersi a ddysgwyd. Trafodwyd y materion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn y cyfarfod hwnnw.

12 Roedd y newidiadau yn y cynllun cymorth cyfreithiol sifil a gyflwynwyd gan y Ddeddf yn 2013 yn rhai sylweddol. Yn yr un modd â'r flwyddyn ddiwethaf, cafwyd heriau pellach i'r cynllun cyllido cymorth cyfreithiol.

13. Achos sydd o bwysigrwydd neilltuol yw un Teresa Gudanaviciene v Director of Legal Aid Casework and the Lord Chancellor [2014] EWHC 1840 (Admin) a [2014] EWCA Civ 1622 (achos Gudanaviciene o hyn ymlaen). Roedd hon yn her i'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol ac mae'n cael ei thrafod yn fwy manwl yn yr adran 'Ymgyfreitha' isod. Yn y gwrandawiad cyntaf roedd y Llys Gweinyddol yn achos Gudanaviciene wedi dod i'r casgliad bod achosion 'aduno teuluoedd ffoaduriaid' (a oedd ar yr olwg gyntaf wedi'u tynnu allan o gwmpas y cyllido o dan y Ddeddf) yn rhai a oedd wedi'u cwmpasu. Er mai bach iawn oedd effaith weithredol a gweinyddol y datblygiad hwn, am gyfnod byr roedd yr achosion hyn wedi'u cwmpasu ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac felly nid oeddent yn ddarostyngedig i'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol. Roedd y Llys Apêl wedi gwrthdroi'r dyfarniad hwnnw wedyn fel mai'r unig sail ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil mewn achosion o'r fath yw drwy'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol.

14. Mae'r Asiantaeth wedi cydweithio â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM – asiantaeth weithredol arall i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder) i symleiddio a chanoli prosesau cymorth cyfreithiol troseddol. O'r blaen, roedd ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu prosesu ar ran y Cyfarwyddwr

# Y strwythur gwneud penderfyniadau

gan staff GLlTEM mewn mwy na 120 o leoliadau. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i drosglwyddo a'i ganoli mewn tri lleoliad yn yr Asiantaeth er mwyn gwella ansawdd y penderfyniadau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Bydd y trosglwyddo hwn (a elwir yn 'drosglwyddo grantiau') wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2015.

15. O ganlyniad i drosglwyddo ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol i'r Asiantaeth, mae gweithwyr achos sifil presennol wedi'u hadleoli a'u hyfforddi i ddelio â'r ceisiadau hyn. Mae'r broses adleoli a hyfforddi hon wedi cael ei chyflwyno fesul cam, gan adlewyrchu'r dull o drawsnewid.

16. Mae'n bwysig nodi bod yr Asiantaeth hefyd wedi cyflwyno nifer o welliannau mewn TG i gefnogi'r trosglwyddo. Rhai enghreifftiau o'r gwelliannau hyn yw creu'r gallu i ymarferwyr yr amddiffyniad i wneud cais ar-lein am gymorth cyfreithiol troseddol a sefydlu cyswllt electronig rhwng system TG llysoedd yr ynadon a'r Asiantaeth i rannu gwybodaeth, er mwyn hwyluso penderfynu gwell.

17. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd annibynnol a chyson, mae'r Asiantaeth yn gweithio ar sail strwythur trefniadol cadarn sy'n cynnwys nifer o fecanweithiau adolygu. Darperir cyngor cyfreithiol i'r Cyfarwyddwr gan y tîm Cyfreithiol Canolog gyda chyfreithwyr sydd wedi'u cydleoli o Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, sy'n gweithredu ar ran yr Asiantaeth yn unig.

18. Gwneir penderfyniadau ar achosion unigol yn unol â'r cynllun dirprwyo gan weithwyr achos yng nghyfarwyddiaeth Rheoli Achosion yr Asiantaeth, sy'n cael ei rheoli gan Shaun McNally CBE, y Cyfarwyddwr Rheoli Achosion.

19. Mae'r gyfarwyddiaeth Rheoli Achosion wedi'i rhannu'n dri grŵp, a phob un yn cael ei rheoli gan Ddirprwy Gyfarwyddwrr:

- Rheoli Achosion Sifil
- Rheoli Achosion Troseddol
- Achosion Cost Uchel.

20. O fewn y grŵp Rheoli Achosion Sifil mae timau ar wahân sy'n delio â theilyngdod, modd a bilio, yn ogystal â dau dîm penodol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid.

21. Mae'r tîm Rheoli Achosion Troseddol bellach yn cynnwys y gwaith o ddarparu cymorth cyfreithiol troseddol (y gwaith 'trosglwyddo grantiau' y cyfeiriwyd ato uchod), sef y rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r prawf modd a'r prawf 'Buddiannau Cyfiawnder' ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron. Yn ogystal â hyn, mae'r Tîm Llysoedd Cenedlaethol

# Trosolwg o'r achosion a gyllidir

yn delio ag asesiadau cymhleth o fodd ac adolygiadau caledi. Mae timau ar wahân hefyd sy'n delio â hawliadau am waith a wnaed yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron, yn ogystal ag amrywiaeth o geisiadau am awdurdod ymlaen llaw neu gymeradwyaeth ymlaen llaw. Trosglwyddwyd y tîm Troseddu Cost Uchel a'r Tîm Trethu Cenedlaethol i'r tîm Rheoli Achosion Troseddol yn Ionawr 2015.

22. Y grŵp Achosion Cost Uchel sy'n delio â'r achosion mwyaf cymhleth a drud sy'n cael eu cyllido gan yr Asiantaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys cyfran fwy o gyfreithwyr er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol ynghylch teilyngdod. Y ddau dîm sy'n rhan o'r grŵp Achosion Costau Uchel yw'r tîm Costau Uchel Sifil a'r tîm Cyllid Achos Eithriadol.

23. Sefydlwyd y tîm Cyllid Achos Eithriadol gan yr Asiantaeth i brosesu ceisiadau am Gyllid Achos Eithriadol sydd wedi'u gwneud o dan adran 10 o'r Ddeddf. Mae'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol yn cwmpasu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol sifil nad ydynt fel arfer o fewn cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol, ond lle byddai methiant i ddarparu cymorth cyfreithiol yn torri, neu lle mae risg sylweddol o dorri:

    a.) hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn (o fewn ystyr Deddf Hawliau Sifil 1998); neu

    b.) unrhyw hawliau sydd gan yr unigolyn i dderbyn gwasanaethau cyfreithiol sy'n hawliau y gellir eu gorfodi gan yr UE.

24. Mae prosesau ar waith i ddarparu mecanweithiau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd ar gyfer y rhain a cheisiadau proffil uchel eraill. Yn benodol, rhaid i'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Phennaeth Achosion Costau Uchel gymeradwyo pob grant.

25. Er bod y Ddeddf wedi lleihau cwmpas y cynllun cyllido cymorth cyfreithiol sifil dros ddwy flynedd yn ôl, mae'r Asiantaeth yn parhau i ddelio â nifer sylweddol o geisiadau am gymorth cyfreithiol mewn gwahanol gategorïau cyfreithiol. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ystadegau ar niferoedd y ceisiadau yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Cyhoeddir y bwletin bob chwarter, a bydd ystadegau ar gyfer y cyfnod hyd ddiwedd Mawrth 2015 yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Mehefin 2015[3].

## Cyfraith breifat teulu – gofynion tystiolaeth

26. Yn y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat teulu, nid yw cyllid ond ar gael lle mae'r mater yn ymwneud â thrais domestig neu gam-drin plant, ac mae angen darparu tystiolaeth benodol cyn y gellir rhoi cyllid. Yn Ebrill 2014, yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, cyflwynwyd gofynion diwygiedig ar gyfer tystiolaeth yn y Rheoliadau i'w gwneud yn haws cael y dystiolaeth angenrheidiol. Mae ystadegau ar nifer y grantiau a roddwyd mewn perthynas â'r gofynion tystiolaeth wedi'u cynnwys yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

3 Gweler https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

# Apeliadau

## Cyllid Achos Eithriadol

27. Mae ystadegau swyddogol am geisiadau a phenderfyniadau ynghylch Cyllid Achos Eithriadol wedi'u cynnwys hefyd yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Mae nifer y ceisiadau wedi aros ar yr un lefel bron ers Ebrill 2014. Gwneir y rhan fwyaf o'r ceisiadau gan gyfreithwyr ond mae canran fach ohonynt yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan geiswyr.

28. Bydd y tîm Cyllid Achos Eithriadol yn ystyried pob achos ar ei ben ei hun, yng nghyd-destun y ffeithiau, y gofynion statudol am gyllido a chan ddal sylw ar y canllawiau ar Gyllid Achos Eithriadol a chyfraith achosion. Fel y nodwyd mewn lle arall yn yr adroddiad hwn, mae achosion Cyllid Achos Eithriadol a'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol wedi bod yn destun heriau yn ystod y flwyddyn. Mae'r data yn dangos bod nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar ôl y dyfarniadau hyn wedi cynyddu.

29. Ceir y rhan fwyaf o'r ceisiadau am Gyllid Achos Eithriadol ym meysydd cyfraith teulu a mewnfudo a chyllid ar gyfer cwestau. Mae cyfran fawr o'r achosion y rhoddir cymorth ar eu cyfer hefyd yn ymwneud â chyllido ar gyfer eirioli mewn cwestau.

30. Os bydd unigolyn yn anghytuno â phenderfyniad gan y Cyfarwyddwr nad yw'n gymwys ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol neu gymorth teuluol (uwch), gall wneud cais i Ddyfarnwr Cyllid Annibynnol am ailystyried y penderfyniad hwnnw. Os yw'r cais yn un am Gyllid Achos Eithriadol neu os mai'r penderfyniad ar ran y Cyfarwyddwr yw nad yw'r achos o fewn cwmpas y cynllun cyllido, dim ond hawl i gael adolygiad mewnol sydd ar gael. Mae ystadegau ar nifer yr apeliadau a'u canlyniad ym mhob argraffiad blynyddol o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

31. Mae'r penderfyniad gan y Dyfarnwr Cyllid Annibynnol ar faterion penodol yn rhwymo'r Cyfarwyddwr. Y rhain yw: unrhyw asesiad o'r rhagolygon am lwyddiant mewn achos, a yw'r mater o'r pwys mwyaf i'r cleient, cymhareb cost a budd yr achos, a rhyddhad neu ddiddymiad ar sail ymddygiad y cleient. Bydd argymhellion eraill yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cyfarwyddwr i'w hailystyried.

## Y Panel

32. Mae Dyfarnwyr Cyllid Annibynnol yn aelodau o'r Panel Adolygu Apeliadau Cyllid a Chostau. Nid yw aelodau'r panel yn cael eu cyflogi gan yr Asiantaeth ac maent yn gweithredu'n annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae Panel Adolygu Rheolaethau Arbennig o dri aelod sy'n ystyried apeliadau sy'n ymwneud â rhai achosion cost uchel ac achosion eraill mwy cymhleth.

33. Mae'r Panel Adolygu Apeliadau Cyllid a Chostau yn cynnwys 152 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd wedi'u dewis ar sail eu gwybodaeth gyfreithiol a'u harbenigedd mewn penderfynu ar apeliadau. Bydd

# Atebolrwydd

eu penderfyniadau'n cael eu monitro'n rheolaidd o safbwynt effeithlonrwydd ac ansawdd a bydd yr Asiantaeth yn cwrdd â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion bob chwarter i adolygu'r llwyth gwaith, amseroldeb ac ansawdd y penderfyniadau gan aelodau'r panel, ac i gasglu gwersi i'w dysgu y bydd staff yr Asiantaeth yn gweithredu arnynt.

34. Yn ystod y gweithdy hyfforddi blynyddol, gweithiodd y grŵp gyda'i gilydd i wella cysondeb y penderfyniadau, dyrannu apeliadau'n fwy effeithlon ac effeithiol a chynllunio ar gyfer gweithdai arbenigol yn y dyfodol ar feysydd cyfraith penodol. Mae'r cyntaf o'r gweithdai hyn, ar gyfer ymarferwyr trosedd, wedi'i gynnal ers hynny ac roedd croeso mawr i hwn ac i'r digwyddiad blynyddol.

35. Ni fu newid yn y modd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn agored i graffu gan y cyhoedd. Mae'n bwysig cynnal yr un lefel o atebolrwydd. Mae'r mecanweithiau sydd ar waith i ganiatáu craffu ar waith yr Asiantaeth ac i bartïon cysylltiedig ddal y Cyfarwyddwr yn atebol yn cael eu hegluro isod.

## Cwestiynau seneddol a cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

36. Mae Aelodau Seneddol ac Arglwyddi yn gallu cyflwyno cwestiynau seneddol i holi am waith sydd wedi'i wneud gan y Cyfarwyddwr mewn cysylltiad ag achosion neu unigolion. Yn yr un modd, mae'r cyhoedd yn gallu cyflwyno ceisiadau am wybodaeth sy'n cael ei dal gan yr Asiantaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

37. Yn 2014-15 ni chafodd yr Asiantaeth unrhyw geisiadau am wybodaeth a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol. Cafwyd 26 o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a phum cwestiwn seneddol am Gyllid Achos Eithriadol, niferoedd tebyg i 2013-14.

38. Fel y nodwyd uchod, mae'r Asiantaeth bellach yn cyhoeddi ystadegau ar Gyllid Achos Eithriadol yn rheolaidd, felly mae nifer o geiswyr gwybodaeth wedi'u cyfeirio at y ffigurau hynny. Os bydd yr Asiantaeth yn cael cais am wybodaeth ynghylch cleient cymorth cyfreithiol unigol, ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae data am gleient cymorth cyfreithiol unigol yn debygol o fod yn ddata personol a dim ond os yw'r achos yn cwrdd â'r meini prawf yn Neddf Diogelu Data 1998 y gellir eu rhyddhau.

## Cwynion

39. Bydd yr Asiantaeth yn ymchwilio'n drwyadl i bob cwyn y mae'n ei chael, gan ddilyn gweithdrefn gwyno ddwy haen. Bydd y gŵyn gychwynnol yn rhoi cyfle i'r Asiantaeth adolygu'r ffordd yr oedd y mater wedi'i drafod ar lefel leol ac unioni'r sefyllfa os oes modd. Os na fydd unigolyn neu ddarparwr yn fodlon ar yr ymateb cyntaf, gall fynd â'i gŵyn at Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Canolog yr Asiantaeth ac wedyn, yn olaf, at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy ei AS lleol.

40. Roedd un gŵyn i'r Asiantaeth wedi'i hatgyfeirio at yr Ombwdsmon y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn ymwneud â phenderfyniad i wrthod Cyllid Achos Arbennig ar gyfer achos cwêst. Disgwylir penderfyniad ar y gŵyn hon.

41. Nid yw'r Asiantaeth yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Cyfarwyddwr ar wahân. Fodd bynnag, mae cyfran helaeth o'r holl gwynion y mae'r Asiantaeth yn eu cael yn ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau ar waith achos.

## Ymgyfreitha

42. Ffordd arall sydd ar gael o geisio gwneud iawn drwy ddal y Cyfarwyddwr yn atebol yw ymgyfreitha yn y llysoedd. Yn benodol, gan fod penderfyniadau'r Cyfarwyddwr yn rhan o waith corff cyhoeddus, gellir eu herio drwy adolygiad barnwrol.

43. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd y prif heriau'n ymwneud â'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol ac achosion Cyllid Achos Eithriadol. Ar 13 Mehefin 2014, rhoddwyd dyfarniad gan y Llys Gweinyddol yn achos Gudanaviciene. Roedd yr hawlwyr a oedd bob un yn ceisio herio gwahanol benderfyniadau ar fewnfudo wedi dadlau'n llwyddiannus y dylent fod wedi cael cymorth cyfreithiol o dan y cynllun Cyllid Achos Eithriadol. Cafodd y Llys fod Canllawiau'r Arglwydd Ganghellor ar gymhwyster ar gyfer Cyllid Achos Eithriadol yn gosod trothwy rhy uchel. Ar 15 Rhagfyr 2014 rhoddodd y Llys Apêl ei ddyfarniad ar apêl yn yr un achos. Er bod rhai agweddau ar y dyfarniad wedi'u gwrthdroi (yn benodol, y cwestiwn ynghylch a oedd achosion aduno teuluoedd o fewn cwmpas y cynllun fel y nodwyd yn gynharach), cadarnhaodd y Llys Apêl y penderfyniad yn y gwrandawiad cyntaf ar Ganllawiau'r Arglwydd Ganghellor, y cafwyd eu bod yn anghyson ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn achosion mewnfudo.

44. Her nodedig arall yn y cyfnod hwn oedd achos R (Sunita Sisangia) v Director of Legal Aid Casework [2014] EWHC 3706 (Admin). Adolygiad barnwrol oedd hwn ynghylch ystyr camddefnydd o swydd neu bwerau gan awdurdod cyhoeddus at ddibenion asesu'r argaeledd o gyllid cymorth cyfreithiol o dan Baragraff 21 o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Llwyddodd yr hawliad yn erbyn y Cyfarwyddwr yn y gwrandawiad cyntaf ac mae'r Llys Apêl wedi rhoi caniatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

45 Mae'r Asiantaeth yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asiantaeth wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i roi sylw

# Casgliad

dyladwy i gydraddoldeb yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yn enwedig o ystyried y newidiadau mewn cymorth cyfreithiol a gyflwynwyd gan y Ddeddf.

46 Yn Ebrill 2013 mabwysiadodd yr Asiantaeth set o flaenoriaethau amrywiaeth ac mae un ohonynt – "gwella ein gallu i gymhwyso'r ddyletswydd cydraddoldeb at ein gwaith o ddarparu cymorth cyfreithiol" – yn berthnasol iawn i rôl y Cyfarwyddwr.

47 Yn ystod 2014-15 cymerodd yr Asiantaeth gamau i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff yr Asiantaeth ynghylch materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, roeddem wedi cyfarwyddo staff i gwblhau cyrsiau e-Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil ar Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a disgwylir i'r holl reolwyr llinell gwblhau dau gwrs ychwanegol ar Duedd Anymwybodol ac Ymwybyddiaeth o Anabledd.

48 Mae'r Asiantaeth yn gwahodd ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth bersonol ar gydraddoldeb i ni. Rydym wedi parhau i gasglu set ddiwygiedig o wybodaeth ar gydraddoldeb sy'n gliriach a mwy defnyddiol ar gyfer rhag-weld anghenion ymgeiswyr dichonol am gymorth cyfreithiol. Yn benodol, mae'r ffurflenni'n darparu gwybodaeth am y nifer o gleientiaid a all fod y ddall, â nam ar eu golwg, yn fyddar ac yn drwm eu clyw, ag anabledd dysgu neu anhwylder iechyd meddwl.

49 Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth ar gyfle cyfartal yr oedd derbynwyr cymorth cyfreithiol wedi'i darparu yn ystod tri chwarter cyntaf 2014-15 i fonitro'r graddau y mae'r Asiantaeth yn parhau i ddarparu ar gyfer poblogaeth amrywiol Cymru a Lloegr. Bydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi ystadegau sy'n ymwneud ag amrywiaeth cleientiaid cymorth cyfreithiol yn 2014-15 yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol, a bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i adolygu'r wybodaeth hon yn y flwyddyn sydd i ddod.

50 Yn yr ail flwyddyn o weithredu'r Ddeddf, cafwyd rhywfaint o eglurder ynghylch y cynllun newydd, er bod Cyllid Achos Eithriadol yn parhau'n destun heriau a dadlau. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y penderfyniadau o ansawdd da ac yn canolbwyntio ar y cwsmer. Bydd rhaglen wella barhaus yr Asiantaeth yn cynnig y mecanwaith ar gyfer addasu ein prosesau fel y bo'n briodol. Anfonwyd copi o'r adroddiad hwn at yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7 (3) o'r Ddeddf. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd..

ISBN 978-1-4741-2057-9